

Gregynog yn ail-greu pasiant cerddorol

Mae gŵyl cerddoriaeth glasurol fwyaf mawreddog Cymru wedi cyhoeddi ei rhaglen ar gyfer 2017 a hon fydd y fwyaf uchelgeisiol eto. Eleni, Pasiantri fydd thema gyffredinol Gŵyl Gregynog, a bydd yn cyflwyno perfformiadau cerddorol, cynyrchiadau dawnswyr, arddangosfeydd hanesyddol a sgysiau gafaelgar mewn nifer o leoliadau gwahanol ledled Cymru rhwng 16 Mehefin a 2 Gorffennaf.

Gregynog yw gŵyl gerddoriaeth glasurol hynaf Cymru sy'n dal i gael ei chynnal, ond ei rhagflaenydd fwyaf arwyddocaol oedd Gŵyl Gerddorol Castell Harlech. Gan fanteisio ar 20 mlynedd o waith ymchwil, ysbrydolir y rhaglen ar gyfer tymor Pasiantri Gŵyl Gregynog gan yr hafau hyfryd hynny, ganrif yn ôl, pan ymgasglodd cymuned greadigol ryfeddol yn Harlech, yn cynnwys artistiaid enwog, ffotograffwyr, awduron a dawnswyr yn ogystal â cherddorion, ac fe fyddai miloedd o bobl yn heidio i fod yn rhan o berfformiadau cofiadwy o fewn muriau'r Castell.

Ymhlith y llu o uchafbwyntiau yn nhymor 2017 fydd y pianydd Llŷr Williams a'r sacsoffonydd Amy Dickson yng Nghastell Y Waun, darn dawnswyr a gomisiynwyd yn arbennig gan Light, Ladd ac Emberton a berfformir yn y cyfnos ar Draeth Harlech, a sgysiau goleuedig gan ddeallusion fel Peter Lord a Hazel Walford Davies.

I Rhian Davies, curadur yr Ŵyl, mae'r rhaglen yn benllanw dau ddegawd o ymchwil: "Rwyf wastad wedi cael fy synnu gan greadigrwydd a gweledigaeth y gymuned artistig ryfeddol a ymgasglodd yn Harlech ganrif yn ôl. Mae hanesion hudol i'w hail-adrodd, megis datganiad Cyril Scott ar gyfer y Prif Weinidog David Lloyd George yn ei gartref yng Nghricieth, a chyngherddau byrfyfyr yn y Neuadd Fawr ym Mhlas Wernfawr, safle Theatr Ardudwy heddiw, lle y cafwyd unwaith ddeuawd piano gan Harriet Cohen a George Bernard Shaw. Rwyf hefyd yn dathlu gwaith arloesol Arnold Dolmetsch, ac yn fwy arbennig felly ei waith ar gerddoriaeth ac offerynnau canoloesol Cymru.

"A hwythau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau gwahanol ledled Cymru, mae pob cyngerdd yn adfer repertoire gan aelod neu aelodau o'r grŵp ac ysgrifennwyd llawer o'r cyfansoddiadau hyn yn Harlech neu fe'u hysbrydolwyd gan dirwedd a chwedlau Cymru, sy'n amserol iawn o gofio ein bod yn cychwyn ar ein taith trwy Flwyddyn y Chwedlau yng Nghymru."

Cynhelir yr Ŵyl yn Aberystwyth, Y Waun a Gregynog yn ogystal â phenwythnos hir mewn canolfannau ar hyd a lled Harlech ei hun, ac mae'r prif artistiaid yn cynnwys y Ricercar Consort, dan gyfarwyddyd Philippe Pierlot, yr athrylith ar y recorder Michala Petri gyda'r harpsicordydd Mahan

Esfahani, y lwtenydd Thomas Dunford, y clarinydd Robert Plane gyda'r Gould Piano Trio, y feiolinydd Sara Trickey a'r pianydd Clare Hammond, y gantores werin Gaeleg Yr Alban Joy Dunlop, a'r chwaraewr pianola rhyfeddol Rex Lawson.

Ychwanegiad arloesol eleni fydd cynhyrchiad arbennig a gomisiynwyd gan Wyl Gregynog gan y gyweithfa ddawns, Light, Ladd ac Emberton, ac a berfformir fel ymateb i'r llanw ar draeth Harlech. Mae'r berfformwraig Eddie Ladd ei hun yn edrych ymlaen yn awchus at y profiad, "Ysbrydolir y cynhyrchiad dawns hwn, fel gweddill yr wyl yn 2017, gan greadigwrydd a dychymyg toreithiol yr artistiaid a fu'n ymweld â Harlech ganrif yn ôl, a chan Margaret Morris yn enwedig, oedd yn arloeswraig ym myd dawns a gwaith symud. Gwna chwedleuon a hanes Harlech yn ogystal â thirwedd syfrdanol yr arfordir ddarn a fydd yn swyno'r synhwyrâu. "

Mae'r Wyl hefyd yn cynnwys rhaglen ategol lawn o sgysiau, ffilmiau, teithiau, arddangosfeydd a digwyddiadau allestyn cymunedol er mwyn cyflwyno cyd-destun ac annog trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd i chwarae rhan lawn yn y gweithgarwch.

Am wybodaeth bellach ac am docynnau ewch i www.gregynogfestival.org neu ffoniwch 01686 207100.

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Deian Creunant – deian.creunant@four.cymru / 01970 636419

Kate Patten – kate.patten@four.cymru / 01970 636401

Nodiadau i Olygyddion

Mae Gŵyl Gregynog yn brosiect arianwyd gan arian loteri ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, yn Brosiect Arweiniol Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru (Croeso Cymru), ac mae'r unig aelod o Gymru ar REMA, Rhwydwaith Cerddoriaeth Gynnar Ewrop sydd â'i bencadlys yn Versailles.

Gŵyl Gregynog, a gychwynwyd gan y chwirydd Gwendoline a Margaret Davies yn Neuadd Gregynog, Tregynon, ger Y Drenewydd yn 1933, yw gŵyl cerddoriaeth glasurol hynaf Cymru.

A hwythau'n wyresau'r diwydiannwr, yr entrepreneur a'r gwleidydd, David Davies, oedd yn hanu o Landinam, Powys, daethant yn ddyngarwyr a deithiai ar hyd a lled Ewrop oedd yn ymddiddori'n angerddol mewn celf a cherddoriaeth, gan gymynroddi mwy na 260 o weithiau o'u casgliad i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, lle y mae llawer ohonynt i'w gweld heddiw.

Mae Gŵyl Gregynog yn denu ymwelwyr o bob rhan o'r byd i Gymru ac mae hefyd yn cael effaith gymdeithasol ac economaidd ar y gymuned leol trwy ei buddsoddiad mewn cyngherddau, gweithdai, sgysiau a phrosiectau allestyn.